Canllawiau ar gyfer cwblhau'r Ffurflen Gais

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi pob rhan berthnasol yn y Ffurflen Gais. Os yw adran benodol yn amherthnasol i chi, nodwch 'ddim yn gymwys' yn y blwch.

Cewch anfon CV, ond caiff CV ond ei dderbyn os yw'n ategu ffurflen gais gyflawn. Ni chaiff CV a anfonir ar ei ben ei hun ei ystyried.

Trwydded Waith / Tystiolaeth o ganiatâd i weithio yn y DU

Os ydych chi'n ddinesydd o dramor, efallai y bydd angen trwydded waith arnoch chi i weithio yn y DU. Dylech sicrhau beth yw eich statws mewnfudo, os yw'n gymwys, cyn ateb y cwestiwn hwn.

Bydd gofyn i ymgeiswyr a gaiff eu gwahodd i gyfweliad ddangos tystiolaeth ddogfennol o ganiatâd i weithio yn y Deyrnas Unedig. Er enghraifft gallech ddarparu pasbort Prydeinig, neu basbort neu Gerdyn Hunaniaeth Genedlaethol o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir; neu ddogfen yn dangos eich Rhif Yswiriant Gwladol yn y DU a'ch Tystysgrif Geni DU; neu drwydded waith a'ch pasbort.

Atodir rhestr lawn o dystiolaeth ddogfennol dderbyniol yn Atodiad 1. Rhaid i'r dogfennau gwreiddiol gael eu gweld ar ddyddiad y cyfweliad a chaiff copi ei wneud. Fodd bynnag, dim ond copïau o ddogfennau sy'n ymwneud â'r ymgeisydd llwyddiannus a gaiff eu cadw, i'w cynnwys yn ffeil bersonol yr unigolyn hwnnw.

Addysg a Chymwysterau

Nodwch fanylion llawn eich addysg, gan nodi Ysgolion / Colegau a fynychwyd a'r cymwysterau a enillwyd, gan gynnwys pwnc, lefel a gradd.

Cyflogaeth

Nodwch fanylion llawn eich hanes gwaith cyflawn. Gall hyn gynnwys cyflogaeth â thâl, gwaith gwirfoddol a phrofiad gwaith.

Gwybodaeth i Gefnogi eich Cais

Defnyddiwch yr adran hon i egluro eich rhesymau am ymgeisio am y swydd hon. Dylai'r wybodaeth rydych chi'n ei chynnwys fod yn berthnasol yn uniongyrchol i fanyleb yr unigolyn a dylech ddangos sut byddai eich sgiliau, eich galluoedd a'ch gwybodaeth yn eich galluogi i ymgymryd â'r swydd. Gallwch dynnu ar elfennau o unrhyw agwedd o'ch bywyd, fel eich addysg, gwaith neu ddiddordebau, cyhyd â'ch bod yn canolbwyntio ar eu perthnasedd i ofynion y swydd hon.

Geirda

Nodwch fanylion tri chanolwr, gydag o leiaf ddau'n gallu gwneud sylwadau ar eich gallu/addasrwydd proffesiynol i ymgymryd â gofynion y swydd. Dylai un o'r canolwyr hyn fod yn gyflogwr cyfredol neu flaenorol os yw'n briodol.

Cofiwch gwblhau'r adran sy'n holi a gaiff y Brifysgol gysylltu â'ch canolwyr cyn y cyfweliad, gan ei bod yn bosibl y gallai'r Brifysgol ddymuno sicrhau geirda cyn y cyfweliad.

Wrth ddarparu enwau canolwyr, rydych chi'n cytuno y gall y Brifysgol ofyn eu barn am eich cymeriad a'ch gallu mewn perthynas â'r cais hwn. Bydd y sylwadau hyn, a roddir mewn ymddiriedaeth, yn aros yn gwbl gyfrinachol.

Gwybodaeth Arall

Mae'r adran hon wedi'i chynllunio i'ch caniatáu chi, os ydych chi'n dymuno, i ychwanegu unrhyw wybodaeth arall ar weithgareddau a/neu lwyddiannau nad ydynt wedi'u nodi mewn man arall yn eich cais.

Adsefydlu Troseddwyr

Ni fydd euogfarn droseddol o reidrwydd yn rhwystr at gael eich cyflogi. Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn rhoi'r hawl i bobl sydd wedi'u cael yn euog o drosedd â dedfryd o hyd at 30 mis o garchar, ac sydd wedi cwblhau'r cyfnod priodol o adsefydlu, ystyried bod eu heuogfarn wedi 'darfod'. Gellir ystyried na ddigwyddodd euogfarn sydd wedi darfod o gwbl.

Fodd bynnag mae Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) yn eithrio rhai mathau o gyflogaeth o ddarpariaethau'r Ddeddf, fel y swyddi hynny sydd â chyswllt rheolaidd â phobl dan 18 ac oedolion bregus.

Caiff unrhyw wybodaeth a ddatgelir ei chadw'n gwbl gyfrinachol a'i defnyddio i ystyried eich addasrwydd am y swydd rydych chi'n ymgeisio amdani yn unig. Os cewch chi eich penodi heb ddatgelu unrhyw euogfarnau, gallech fod yn agored i gael eich diswyddo neu i gamau disgyblu eraill gan y Brifysgol.

Datgan Buddiant

Gwnewch yn siŵr eich bod yn datgelu os ydych yn perthyn i unrhyw aelod o'r Cyngor / aelod o staff y Brifysgol, gan nodi eu henw a'u perthynas â chi.

Datganiad

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi'r ffurflen ar ôl ei llenwi. Os na wnewch chi hyn ni fydd yn bosibl i'r Brifysgol barhau â'ch cais.

<u>Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal</u>

Datganiad
Mae Prifysgol Cymru'n ymrwymo i gyfle cyfartal ac yn ystyried ceisiadau ar sail teilyngdod a'r gallu i wneud y swydd yn unig. Caiff yr wybodaeth a gesglir ar y Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ei chadw ar wahân i'ch Ffurflen Gais. Bydd o gymorth i'r Brifysgol gefnogi ac annog grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a hyrwyddo amrywiaeth.

Caiff unrhyw ddata personol a gesglir ar y ffurflen ei ddal yn ddiogel ac yn gyfrinachol a chaiff ei ddefnyddio gan y Brifysgol yn unol â'r darpariaethau a osodwyd yn Neddf Diogelu Data 1988 yn unig.

Datganiad Anabledd
Os oes gennych chi anabledd neu broblem iechyd, nodwch unrhyw effeithiau perthnasol yn sgil yr anabledd neu'r broblem iechyd, ac unrhyw addasiadau y bydd eu hangen os cewch eich gwahodd am gyfweliad.

Grŵp Ethnig
Nodwch nad yw grŵp ethnig yn ymwneud â hunaniaeth genedlaethol, man geni na dinasyddiaeth. Mae'n ymwneud â lliw a grŵp ethnig eang. Gallech berthyn i unrhyw un o'r grwpiau isod felly ticiwch y blwch perthnasol.

Prifysgol Cymru
University of Wales

Appendix 1

Deddf Lloches a Mewnfudo 1996

Atal Gweithio'n Anghyfreithlon

Dan ddarpariaethau Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 mae'n ofynnol i'r holl gyflogwyr yn y DU gynnal gwiriadau dogfennol sylfaenol ar bob unigolyn maen nhw'n bwriadu eu cyflogi. Drwy wirio a chopïo rhai dogfennau gwreiddiol penodol sy'n perthyn i'r darpar gyflogai gall y Brifysgol sicrhau amddiffyniad statudol yn erbyn euogfarn am gyflogi gweithiwr anghyfreithlon.

Os nad oes gan ddarpar gyflogai hawl i weithio yn y DU heb ganiatad y Swyddfa Gartref, bydd unrhyw gynnig o gyflogaeth yn amodol ar ymgeisio am drwydded waith ac i'r cais gael ei gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref a/neu Trwyddedau Gwaith (y DU).

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i unrhyw gyflogai newydd, boed ar gyflog, tâl wythnosol, ffioedd neu unrhyw fath arall o daliad, beth bynnag yw hyd y gwaith.

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf, gofynnir i'r holl ymgeiswyr ddod â dogfennau gwreiddiol i'r cyfweliad fel a ganlyn:

- **Un** o'r dogfennau gwreiddiol a restrir yn **Rhestr 1.**

Os yw ymgeiswyr yn methu â darparu un o'r dogfennau gwreiddiol a gynhwysir yn **Rhestr 1**, gofynnir iddynt ddarparu dwy o'r dogfennau gwreiddiol yn y cyfuniadau a geir yn **Rhestr 2**

Nid oes angen i ymgeiswyr ddod â dogfennau o Restr 1 a Rhestr 2

Rhestr 1

Mae Rhestr 1 yn cynnwys dogfennau y gellir eu darparu ar eu pen eu hunain i ddarparu amddiffyniad statudol i'r Brifysgol.

- Pasbort sy'n dangos bod y deiliad yn ddinesydd Prydeinig, neu fod ganddo hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig.

- Dogfen yn dangos bod y deiliad yn ddinesydd gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir. Rhaid i'r ddogfen hon fod yn basbort cenedlaethol neu'n gerdyn hunaniaeth genedldaethol.

- Trwydded preswylio a ddyroddwyd gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

- Pasbort neu ddogfen arall a ddyroddir gan y Swyddfa Gartref sydd wedi'i hardystio ac sy'n datgan bod gan y deiliad hawl cyfredol i breswylio yn y Deyrnas Unedig fel aelod o deulu unigolyn o wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig.

- Pasbort neu ddogfen taith arall sydd wedi'i hardystio i ddangos y caiff y deiliad aros am gyfnod penagored yn y Deyrnas Unedig, neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad.

- Pasbort neu ddogfen taith arall sydd wedi'i hardystio i ddangos y caiff y deiliad aros yn y Deyrnas Unedig; a bod yr ardystiad hwn yn caniatáu i'r deiliad wneud y math o waith mae'r Brifysgol yn ei gynnig os nad oes ganddo drwydded waith.

- Cerdyn Cofrestru Cais gan y Swyddfa Gartref i geisiwr lloches yn datgan bod hawl gan y deiliad i ymgymryd â chyflogaeth.

Rhestr 2

Mae Rhestr 2 yn dangos y cyfuniad o ddogfennau fydd yn darparu amddiffyniad statudol i'r Brifysgol. Ni fydd gan y Brifysgol amddiffyniad statudol os bydd un ddogfen yn dod o'r cyfuniad cyntaf ac un o'r ail gyfuniad.

Cyfuniad cyntaf

A. Dogfen sy'n cynnwys Rhif Yswiriant Gwladol ac enw'r unigolyn. Gallai hon fod yn P45, P60, Cerdyn Yswiriant Gwladol neu lythyr gan asiantaeth y Llywodraeth.

YNGHYD AG UN O'R DOGFENNAU CANLYNOL A RESTRIR RHWNG B – H:

B. Tystysgrif geni lawn a ddyroddwyd yn y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys enwau rhieni'r deiliad; NEU

C. Tystysgrif geni a ddyroddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon; NEU

D. Tystysgrif cofrestru neu frodori'n datgan bod y deiliad yn ddinesydd Prydain; NEU

E. Llythyr gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad sy'n nodi bod yr unigolyn a enwir ynddo'n cael aros yn benagored yn y Deyrnas Unedig, neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad; NEU

F. Dogfen Statws Mewnfudo gan y Swyddfa Gartref gydag ardystiad yn nodi y caiff yr unigolyn a enwir aros am gyfnod penagored yn y Deyrnas Unedig, neu nad oes terfyn amser ar ei arhosiad; NEU

G. Llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n nodi bod yr unigolyn a enwir ynddo'n cael aros yn y Deyrnas Unedig, **a** bod hyn yn caniatáu iddo wneud y math o waith sy'n cael ei gynnig; NEU

H. Dogfen Statws Mewnfudo gan y Swyddfa Gartref gydag ardystiad yn nodi y caiff yr unigolyn a enwir aros yn y Deyrnas Unedig; a bod hyn yn caniatáu iddo wneud y math o waith sy'n cael ei gynnig.

Ail gyfuniad

A. Trwydded waith neu gymeradwyaeth arall i ymgymryd â chyflogaeth sydd wedi'i dyroddi gan Drwyddedau Gwaith y DU.

YNGHYD AG UN O'R DOGFENNAU CANLYNOL A RESTRIR RHWNG B - C

B. Pasbort neu ddogfen deithio arall sydd wedi'i hardystio i ddangos bod yr unigolyn a enwir ynddi'n cael aros yn y Deyrnas Unedig ac yn cael ymgymryd â'r gyflogaeth trwydded waith dan sylw; NEU

C. Llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n nodi bod yr unigolyn a enwir ynddo'n cael aros yn y Deyrnas Unedig ac yn cael ymgymryd â'r gyflogaeth trwydded waith dan sylw.

Nodwch nad yw'r dogfennau canlynol yn darparu tystiolaeth ddigonol ac ni chânt eu derbyn gan y Brifysgol.

- Llythyr Cydnabod Safonol gan y Swyddfa Gartref neu Lythyr Gwasanaeth Mewnfudo (IS96W) sy'n nodi bod ceisiwr lloches yn cael gweithio yn y Deyrnas Unedig. (Dylai unigolion sydd â'r dogfennau hyn gysylltu â'r Swyddfa Gartref am wybodaeth am sut y gallant ymgeisio am Gerdyn Cofrestru Cais).

- Llythyr gan y Swyddfa Gartref sy'n datgan bod y deiliad yn ddinesydd Prydeinig.

- Pasbort sy'n disgrifio'r deiliad fel Dinesydd Tiriogaethau Dibynnol Prydain sy'n datgan bod gan y deiliad gyswllt â Gibraltar.

- Tystysgrif geni fer yn y Deyrnas Unedig nad yw'n cynnwys manylion am rieni'r deiliad.

- Cerdyn neu dystysgrif gan Gyllid y Wlad dan y Cynllun Diwydiant Adeiladu.

- Rhif Yswiriant Gwladol dros dro (sy'n dechrau â TN neu unrhyw rif sy'n gorffen â'r llythrennau E i Z yn gynwysedig).

- Trwydded yrru a ddyroddwyd gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau.

- Bil oddi wrth sefydliad ariannol neu gwmni cyfleustodau.